# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Clinig Deintyddol Marlborough/Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 16 Mai 2017

Dyddiad cyhoeddi: 17 Awst 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**

ISBN Digidol 978-1-4734-9905-8

© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom .......... 5

2. Crynodeb o'n harolygiad .......... 6

Yr hyn a ganfuom .......... 8

Ansawdd profiad y claf .......... 9

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .......... 12

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .......... 17

3. Beth sydd nesaf? .......... 19

4. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol .......... 20

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .......... 21

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .......... 22

Atodiad C – Cynllun gwella .......... 23

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a’r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwirio bod pobl Cymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a’r cyhoedd yn ganolog i’r hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu'n agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol ar sail yr hyn rydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull o weithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Mynegi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisïau, safonau ac arferion.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Marlborough, 14 Marlborough Road, Y Rhath, Caerdydd CF23 5BX, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 16 Mai 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu cynorthwyol AGIC (arweinydd yr arolygiad) ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Marlborough yn darparu gofal diogel ac effeithiol, gan gynnwys gwasanaeth deintyddol cyfeillgar a phroffesiynol ar gyfer ei gleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod cytundebau amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau yn ddiogel ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.

Roedd y cofnodion a welwyd gennym yn gynhwysfawr ac yn gyfredol, a gwelsom dystiolaeth o restrau gwirio effeithiol sy'n sicrhau bod y staff yn cwblhau tasgau yn ôl yr angen.

Roedd y ffeiliau polisi a gweithdrefn yn daclus ac yn hawdd eu defnyddio, a oedd yn galluogi'r staff i gael mynediad at y wybodaeth ofynnol.

Roedd y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ac roedd systemau ar waith er mwyn sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi yn eu swyddogaethau.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd systemau ar waith i gasglu adborth gan y cleifion.
- Dywedodd y cleifion yn unfrydol eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir.
- Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus yn eu swyddi ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth
- Roedd archwiliadau perthnasol yn cael eu cynnal a oedd yn rhoi tystiolaeth bod y practis yn ymdrechu i wella ei wasanaethau yn barhaus.

- Roedd yr amgylchedd yn cynnig digon o gyfleusterau clinigol a oedd wedi'u cyfarparu'n dda, ac roeddent yn cael eu cynnal yn dda, yn lân a thaclus yn ôl pob golwg.
- Roedd y broses o gadw cofnodion yn gynhwysfawr ac yn gyfredol
- Roedd systemau ar waith i sicrhau bod staff yn derbyn cefnogaeth a'u bod yn meddu ar yr hyfforddiant angenrheidiol i allu cyflawni eu swyddi'n effeithiol.

# Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Marlborough yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Caerdydd. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, un hylenydd, pedair nyrs ddeintyddol, un rheolwr practis ac un derbynnydd.

Mae’r practis yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion ac roedd adborth gan gleifion yn cadarnhau hyn. Roedd gan y practis systemau ar waith ar gyfer casglu adborth gan gleifion yn weithredol ac roedd y rhain yn cael eu defnyddio i asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Cyn yr arolygiad, estynnwyd gwahoddiad i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cwblhawyd cyfanswm o 42 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *Practis rhagorol*
>
> *Gwych!*
>
> *Cynorthwyol iawn, deallus, glân a chyfeillgar, byddwn yn ei argymell i unrhyw un*

### Cadw'n iach

Roedd gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn y mannau aros, gan gynnwys taflenni gwybodaeth a phosteri i blant, a gwybodaeth benodol o ran y gwahanol fathau o driniaethau, a gwybodaeth ataliol.  Gwnaethom nodi bod posteri'r GIG yn cynnwys gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd gan yr ystafelloedd deintyddol fonitorau teledu a oedd hefyd yn arddangos gwybodaeth i gleifion, gan gynnwys gwybodaeth ataliol a'r triniaethau gwahanol oedd ar gael yn y practis.

Roedd arwydd 'dim ysmygu' wedi'i arddangos yn y dderbynfa, a wnaeth gadarnhau'r pwyslais ar gydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg.

### Gofal ag urddas

Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn derbyn gofal gydag urddas a pharch. Canfuom fod lle i staff gael trafodaethau â chleifion mewn lle preifat, i ffwrdd o gleifion eraill, pe bai angen. Clywsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd yr adborth gan y cleifion a gwblhaodd ein holiaduron yn gadarnhaol iawn. Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn cael eu trin â pharch pan oeddent yn ymweld â'r practis.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Cytunodd pawb eu bod yn cyfrannu cymaint ag yr oeddent yn ei ddymuno at unrhyw benderfyniadau a wneir o ran eu triniaeth.

Dywedodd yr holl gleifion wrthym fod y tîm deintyddol wedi'u helpu i ddeall yr holl opsiynau oedd ar gael pan yr oedd angen triniaeth arnynt.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion bod y gost ar gyfer y driniaeth wedi cael ei hesbonio'n glir cyn iddynt dderbyn y driniaeth, a dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrif.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd rhywfaint o'r wybodaeth i gleifion a'r posteri a oedd yn cael eu harddangos yn y man aros yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym nad oeddent erioed wedi gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol, ond ni wnaethant roi gwybodaeth ychwanegol ynghylch hyn. Nid oedd yr un o'r holiaduron a gwblhawyd yn cynnwys cleifion a oedd yn ystyried eu bod yn siarad Cymraeg.

## Gofal amserol

Canfuom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn rhoi gwybod i'r cleifion pe bai deintydd ar ei hôl hi.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Roedd y rhif cyswllt brys y gallai'r cleifion ei ffonio mewn argyfwng i'w glywed ar neges peiriant ateb y practis, fel bod cleifion yn gallu cael gofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau.

## Gofal unigol

## Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd yr holl adborth gan y cleifion a gwblhaodd ein holiaduron yn cadarnhau bod y tîm deintyddol wedi trafod â nhw ynghylch sut i gadw eu cegau a'u dannedd yn iach.

Roedd yr holl atebion gan gleifion yn cadarnhau bod y tîm deintyddol wedi helpu cleifion i ddeall yr holl opsiynau oedd ar gael pan roedd angen triniaeth, ac roeddent yn cyfrannu cymaint ag yr oeddent yn ei ddymuno at unrhyw benderfyniadau a wneir o ran eu triniaeth.

## Hawliau pobl

Roedd ardal aros cynllun agored gan y practis. Gellid cynnal sgyrsiau preifat â chleifion er hynny yn yr ystafelloedd triniaeth, ac roedd lle ychwanegol ar gael yn y practis ar gyfer sgyrsiau a galwadau ffôn preifat pe bai angen. Roedd trefniadau o'r fath yn sicrhau bod preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd cleifion yn cael eu cynnal.

## Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefn gwyno ar waith. Gwnaethom ofyn i'r practis ddiweddaru'r polisi cwynion yn ffeil y practis er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys cyfeiriad AGIC a'i fod yn gyson o ran y wybodaeth ynghylch cwynion sy'n cael ei harddangos yn y dderbynfa ar gyfer cwynion mewn perthynas â thriniaeth breifat. Roedd poster 'Gweithio i Wella' y GIG wedi'i arddangos yn glir yn y dderbynfa.

Roedd gan y practis broses a system ar waith i gofnodi, monitro ac ymateb i unrhyw gwynion a dderbyniwyd. Ychydig iawn o gwynion oedd wedi cael eu derbyn gan y practis, ond dywedodd y staff wrthym y byddent yn sicrhau bod unrhyw themâu neu dueddiadau a oedd yn codi o ganlyniad i adborth gan gleifion yn cael eu hystyried a'u trafod ymhlith y tîm.

Roedd y practis wedi creu system ar gyfer casglu adborth gan gleifion, gyda blwch awgrymiadau yn y dderbynfa. Roedd arolygon cleifion yn cael eu cynnal a'u dadansoddi yn rheolaidd i sicrhau bod barn y cleifion yn cael ei nodi a bod camau yn cael eu cymryd i wella'r gwasanaeth lle bo hynny'n briodol.

Dywedodd y staff wrthym fod unrhyw sylwadau ar lafar a wnaed am y gwasanaeth deintyddol yn cael eu nodi o fewn nodiadau'r cleifion.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod cytundebau amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau yn ddiogel ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.

Roedd gweithdrefnau rheoli heintiau yn ategu'r canllawiau a'r dulliau archwilio angenrheidiol. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod yr offer a'r prosesau dadheintio yn cael eu gwirio yn rheolaidd.

Roedd y cofnodion a adolygwyd gennym yn gynhwysfawr ac yn gyfredol. Roedd rhestrau gwirio ar waith ar gyfer tasgau amrywiol a oedd yn rhoi sicrwydd bod y tasgau'n cael eu cwblhau'n gyson.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi'u cynnal i sicrhau bod dyfeisiadau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis.

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n briodol. Roedd trefniadau ar waith gyda'r cyngor lleol ar gyfer cael gwared ar wastraff nad yw'n beryglus (domestig).

Roedd adeilad y practis wedi cael ei weddnewid, ac roedd yr holl gyfleusterau ar gael ar y llawr daear. Roedd yn amlwg bod yr adeilad wedi'i gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan ac roedd yr holl fannau o fewn y practis yn lân ac yn daclus. Roedd y toiled ar gyfer y cyhoedd/staff yn ddigon eang i gleifion gydag anawsterau symudedd ei ddefnyddio, ond nid oedd unrhyw

reiliau llaw i gynnig cymorth pe bai angen. Gwnaethom ofyn i'r staff ystyried yr angen hwn, gan ystyried eu grŵp cleifion.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis a gwelsom fod yr offer hyn wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf.

### Atal a rheoli heintiau

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer glanhau a sterileiddio offer (a adwaenir hefyd fel dadheintio). Dangosodd ein harsylwadau fod y broses hon yn foddhaol. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.
- Roedd yr offer a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg.
- Roedd offer wedi'u storio'n briodol ac wedi'u dyddio
- Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i ddiogelu'r staff rhag anafiadau a/neu heintiau

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei ddatblygu a'i alinio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[1] Rydym yn cydnabod bod hyn yn arfer da o ystyried bod rhychwant cynnwys yr archwiliad yn gynhwysfawr. Roedd archwiliad rheoli heintiau wedi'i gyflawni yn ôl trefn dreigl ac awgrymwyd i'r staff nodi'r dyddiad ar archwiliadau er mwyn deall yr amserlen y mae'r archwiliad yn cyfeirio ato yn glir.

Roedd gan y practis raglen cynnal a chadw dyddiol ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio. Roedd llyfr log ar waith ar gyfer pob peiriant awtoclaf a gwelsom dystiolaeth i ddangos bod gwiriadau yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd y dydd.

---

[1] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Gwnaethom drafod â'r staff ar adeg ein hymweliad ynglŷn â maint y data roedd cofnodydd data y peiriant awtoclaf yn gallu ei storio er mwyn cofnodi'r cylchrediadau. Rydym wedi ein sicrhau gan weithrediadau'r practis, pan wnaethant gysylltu â'r gwneuthurwr a chadarnhau gydag AGIC bod y cyfleuster storio yn ddigonol.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau (cleifion), ac roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd polisi dadebru ar waith.

Roedd gan y practis swyddogion cymorth cyntaf penodedig.

Gwelwyd bod y cyffuriau brys a gedwir yn y practis yn cael eu storio'n briodol er mwyn sicrhau mynediad rhwydd atynt mewn achos brys. Roedd gan y practis system er mwyn tystio bod gwiriadau yn cael eu cynnal i wirio a newid cyffuriau a chwistrelli â'u dyddiadau wedi dod i ben, yn unol â'r safonau a nodir gan y Cyngor Dadebru (DU)[2]

### Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd gan y practis bolisïau diogelu ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i alluogi staff i fynegi unrhyw bryderon ynghylch y gwasanaethau a gyflenwir ar gyfer cleifion. Roedd pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn oedolion a phlant sy'n agored i niwed.

[2] Mae'r Cyngor Dadebru (DU) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

Dywedodd y practis wrthym fod gwiriadau cyn cyflogi unrhyw aelodau newydd o'r staff yn cael eu cynnal cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd gan rai o'r staff clinigol dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd y practis yn defnyddio cyfarpar pelydr-X digidol, ac roedd y trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar pelydr-X hwnnw yn gyson â safonau a rheoliadau presennol. Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod yr holl ddeintyddion a oedd yn ymwneud â thynnu radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Roedd hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[3] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Gwnaethom nodi bod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn gyflawn ac yn gyfredol, yn unol â'r gofyn.

Roedd gan y practis system sicrhau ansawdd addas ar waith i sicrhau bod ansawdd lluniau pelydr-X cleifion yn cael eu graddio a'u cofnodi. Byddai hyn yn amlygu problemau posibl â'r broses o dynnu delweddau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau, pe bai angen, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau am ofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cefnogi gan sganiau pelydr-X da a chlir.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn cwblhau amrywiaeth o archwiliadau, gan gynnwys rheoli heintiau, cadw cofnodion, gwastraff a radiograffau.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Mae'r deintyddion yn cynnal adolygiadau mewnol gan gymheiriaid o waith ei gilydd. Mae hyn yn arfer da sy'n cyfrannu at ansawdd y gofal a ddarperir gan

---

[3] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

fod trefniadau o'r fath yn annog deintyddion i rannu gwybodaeth rhyngddynt er lles y cleifion.

## Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o 15 o gofnodion cleifion y practis a gwnaethom ganfod fod y cofnodion yn gyfredol ac yn ddigon manwl gyda gwybodaeth ynghylch triniaeth pob claf. Gwelsom hanesion meddygol wedi'u cynnwys ym mhob un o'r cofnodion y gwnaethom eu hadolygu. Roedd cyfarwyddyd priodol wedi'i roi ynghylch hylendid y geg, yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Ym mhob achos, roedd cofnodion y cleifion y gwnaethom eu hadolygu yn cynnwys manylion priodol adnabod cleifion, hanes deintyddol blaenorol a'r rheswm dros yr ymweliad.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis hwn. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi, yn deall eu cyfrifoldebau, ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Roedd ystod o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith ac roedd yna systemau i ymsefydlu, hyfforddi a chefnogi'r staff.

Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau yn cael eu storio'n daclus, gan alluogi'r staff i gael mynediad at wybodaeth berthnasol.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Practis Deintyddol Marlborough wedi darparu gwasanaethau i gleifion o fewn ardal Caerdydd ers blynyddoedd maith, ac mae'r perchennog presennol wedi darparu gwasanaethau ers 1999.

Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Roedd sawl aelod o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers blynyddoedd lawer ac roedd perthynas dda rhyngddynt. Dywedodd staff wrthym eu bod yn hyderus wrth godi unrhyw broblemau neu bryderon yn uniongyrchol gyda rheolwr y practis neu'r deintydd arweiniol.

### Staff ac adnoddau

#### Gweithlu

Canfuom fod y practis yn ymroddedig i sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cyflenwi'n ddiogel ac yn amserol. Roedd hyn yn cael ei ategu gan ystod o bolisïau a gweithdrefnau. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny hefyd trwy edrych ar amrywiaeth o gofnodion a thrwy drafodaethau ag aelodau staff y tîm deintyddol.

Roedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau wedi'u ffeilio'n daclus ac roedd yn hawdd bwrw golwg drostynt a chael y wybodaeth ofynnol. Gwnaethom nodi bod gan rai polisïau ddyddiadau cyhoeddi ac adolygu ond nid oedd hyn yn wir ar gyfer rhai eraill. Rydym yn argymell, er cysondeb, bod yr holl ddogfennau yn cynnwys eu dyddiadau cyhoeddi ac adolygu.

Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi llofnodi rhai polisïau a gweithdrefnau i gadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u deall. Er mwyn bod yn gyson â'r rheiny ar ffeiliau'r staff, gwnaethom ofyn i'r practis ystyried rhoi system ar waith i dystio bod pob un o bolisïau a gweithdrefnau'r practis yn cael eu darllen a'u llofnodi gan y staff.

Roedd y polisi gwastraff yn cyfeirio at HTM 01-05 a dylai fod yn cyfeirio at Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Gwnaethom drafod hyn ar ddiwrnod yr ymweliad a gwnaeth y staff gytuno i'w newid.

Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a ddywedodd wrthym eu bod yn hapus yn gwneud eu swyddi a'u bod yn derbyn y gefnogaeth a'r hyfforddiant yr oedd eu hangen arnynt. Canfuom hefyd fod systemau ar waith i sicrhau bod unrhyw staff newydd yn derbyn cwrs sefydlu, a'u bod yn cael eu gwneud yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau ac yn ymgymryd â hyfforddiant hanfodol.

Roedd system ar waith i staff gael arfarniad blynyddol, a oedd yn sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd i fyfyrio ar eu gwaith a nodi unrhyw hyfforddiant perthnasol y gallent fod ei angen. Roedd cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a oedd yn cael eu cofnodi, gan ddangos tystiolaeth o'r trafodaethau.

Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwnedd Hepatitis B yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod gan y practis system ar waith i amddiffyn cleifion a staff rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Roedd yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystysgrifau AGIC y deintyddion wedi'u harddangos, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, ac fe welsom gadarnhad o yswiriant indemniad.

# 3. Beth sydd nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon sydd angen sylw ar unwaith yn ystod ein harolygiad, sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon sydd angen sylw ar unwaith mewn perthynas â diogelwch cleifion, lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maent yn eu cymryd i roi sylw i'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 4. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made ahttp://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/contents/madehttps://www.gdc-uk.org/professionals/standards

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon dybryd a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn | | | |
| [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

### Gwasanaeth:

### Dyddiad yr arolygiad:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni chyflwynwyd unrhyw ofynion sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad | | | | |
| [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Practis Deintyddol Marlborough

### Dyddiad yr arolygiad: 16 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Nid oes angen gwneud unrhyw argymhellion | | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Nid oes angen gwneud unrhyw argymhellion | | | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Nid oes angen gwneud unrhyw argymhellion | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (llythrennau bras):Matthew Thomas

## Swydd:Prif Lawfeddyg Deintyddol

## Dyddiad: 7 Mehefin 2017

GWELLIANNAU ERAILL A WNAED YN UNOL Â'R ARGYMHELLION  Taflen wirio polisïau'r gweithwyr wedi'i llofnodi- Gweler atodlen 3;  Rhestrau polisïau gyda dyddiadau adolygu- Gweler atodlenni 4 a 5;  Camgymeriad teipio yn y polisi gwaredu gwastraff wedi'i gywiro- Gweler atodlen 6;  Polisi Dadebru heb dyddiad adolygu- Roedd hwn yn bresennol ond nid oedd ar gefn y dudalen olaf- Gweler ffotograff 7 ynghlwm;  Rheiliau llaw yn y toiledau i gynorthwyo cleifion sydd ag anableddau- Gweler ffotograff 8 ynghlwm